# Datganiad Gorchwyl Cyhoeddus Llywodraeth Cymru
# 18 Gorffennaf 2015

Llywodraeth Cymru yw Llywodraeth ddatganoledig Cymru. Mae'r datganiad hwn yn disgrifio Gorchwyl Cyhoeddus Llywodraeth Cymru[1] at ddibenion y Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth Sector Cyhoeddus 2015 (y Rheoliadau Ailddefnyddio).

Mae ailddefnyddio yn golygu defnyddio gwybodaeth sector cyhoeddus at ddiben heblaw'r diben gwreiddiol y cafodd ei llunio, ei chadw, ei chasglu neu ei lledaenu ar ei gyfer.

## 1. Cefndir

Sefydlwyd Llywodraeth Cynulliad Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006[2] ac mae'n cynnwys yr aelodau a ganlyn:

- Y Prif Weinidog;
- Gweinidogion Cymru;
- Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru;
- Dirprwy Weinidogion Cymru.

Mae'n derbyn cymorth gan staff sy'n gweithio mewn swyddfeydd ledled Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am sawl agwedd ar ein bywydau bob dydd yng Nghymru, mewn meysydd sydd wedi'u datganoli iddi. Rôl Llywodraeth Cymru yn y meysydd datganoledig hynny yw:

- Gwneud penderfyniadau ar faterion sy'n gysylltiedig â'r meysydd hyn, ar gyfer Gymru gyfan;
- Datblygu polisïau a'u rhoi ar waith;
- Datblygu Cyfreithiau Cymru.

## 2. Gorchwyl Cyhoeddus

Mae Llywodraeth Cymru yn arfer ei swyddogaethau (hynny yw, pwerau a dyletswyddau) mewn meysydd sydd wedi'u datganoli iddi. Mae atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn pennu'r meysydd cyfrifoldeb polisi presennol sydd wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru mewn 20 maes bras. 'Pynciau' yw'r enw ar y meysydd hyn, ac maent yn cynnwys amaethyddiaeth, diwylliant, datblygu economaidd, addysg, yr amgylchedd, llywodraeth leol, iechyd, cynllunio, gofal cymdeithasol a thrafnidiaeth.

Nid yw swyddogaethau'n cael eu rhoi yn gyffredinol i Lywodraeth Cymru o dan yr enw hwnnw. Yn hytrach, caiff swyddogaethau eu trosglwyddo fel arfer i aelodau Llywodraeth Cymru sy'n ymgymryd â'u swyddogaethau ar ran y goron. Yn ymarferol, Gweinidogion Cymru sy'n ymgymryd â'r rhan fwyaf o swyddogaethau, sy'n cynnwys

[1] Nid oes datganiadau pendant ynghylch ystyr y term "gorchwyl cyhoeddus" o ran y Rheoliadau Ailddefnyddio." Yn ymarferol, mae'n cynnwys gwybodaeth y mae'n rhaid i gorff sector cyhoeddus ei llunio, ei chasglu neu ei darparu i gyflawni ei rôl a'i swyddogaethau craidd.
[2] Adran 45 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

y Prif Weinidog at y dibenion hyn. Mae portffolio'n cael ei ddyrannu i bob Gweinidog, sy'n cynnwys y meysydd y mae'r Gweinidog hwnnw'n gyfrifol amdanynt.

Daw swyddogaethau Gweinidogion Cymru o nifer o wahanol ffynonellau. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Deddfau Seneddol

  Gall deddfwriaeth y mae Llywodraeth y DU yn ei phasio drosglwyddo swyddogaethau'n uniongyrchol i Weinidogion Cymru. Er enghraifft, adran 60 o Deddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud pethau i hyrwyddo neu wella llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Cymru.

- Mesurau a Deddfau y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn eu pasio

  Yn yr un modd â Deddfau Seneddol, gall y rhain drosglwyddo swyddogaethau i Weinidogion Cymru.

- Gorchmynion Dynodi a deddfwriaeth a wneir o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972

  Mae'r rhain yn rhoi'r pŵer i Weinidogion roi ar waith rai o ofynion cyfraith Ewrop.

- Gorchmynion Trosglwyddo Swyddogaethau

  Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor a wneir gan Ei Mawrhydi yw'r rhain[3] sy'n trosglwyddo swyddogaethau o Lywodraeth y DU i Weinidogion Cymru.

## 3. Mynediad a Thrwyddedu

Rydym yn casglu ac yn creu gwybodaeth yn unol â'n gorchwyl cyhoeddus.
Oni bai bod y Rheoliadau Ailddefnyddio'n eithrio yr wybodaeth, mae modd ailddefnyddio'r holl wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw. Enghreifftiau o eithriadau[4] gan gynnwys lle mae gan drydydd parti yr hawlfraint ar gyfer yr

---

[3] Adran 58 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

[4] Eithriadau

(1) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn berthnasol i ddogfen lle—

(a) mae'r weithred o ddarparu'r ddogfen yn dod tu allan i orchwyl cyhoeddus y corff sector cyhoeddus, cyn belled â bod cwmpas gorchwyl cyhoeddus y corff hwnnw yn tryloyw ac yn destun adolygiad; neu

(b) mae trydydd parti yn berchen ar hawliau eiddo deallusol perthnasol yn y ddogfen.

(2) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn berthnasol i ddogfen oni bai—

(a) bod y corff sector cyhoeddus wedi nodi bod modd ei hailddefnyddio;

(b) ei bod wedi cael ei darparu i'r ymgeisydd; neu

wybodaeth neu lle mae cyfyngiad ar fynediad o dan ddeddfwriaeth arall fel Deddf Diogelu Data a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae manylion yr wybodaeth rydym eisoes wedi'i chyhoeddi i'w hailddefnyddio ar gael ar ein gwefan http://llyw.cymru/?lang=cy. Mae StatsCymru https://statscymru.cymru.gov.uk/Catalogue yn wasanaeth am ddim sy'n caniatáu i bobl weld, trin, creu a lawrlwytho data ohono. Rydym hefyd yn darparu gwybodaeth drwy blatfformau cyfryngau cymdeithasol.

Mae caniatâd i ailddefnyddio gwybodaeth oedd heb ei rhyddhau o'r blaen yn amodol ar ddatrys materion mynediad. Gellir gwneud ceisiadau mynediad ac ailddefnyddio[5] ochr wrth ochr.

---

(c) ei bod yn hygyrch drwy ffordd arall heblaw am wneud cais amdani o fewn ystyr Deddf 1998, Deddf 2000 (neu Ddeddf 2002 lle bo'n briodol) neu Reoliadau 2004 (neu Reoliadau'r Alban 2004 lle bo'n briodol).

(3) Nid yw'r Rheoliadau'n berthnasol i ddogfennau sy'n cael eu cadw gan y canlynol—

(a) darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'u his-gwmnïau, a chyrff eraill a'u his-gwmnïau at ddibenion darparu gwasanaethau rhaglenni neu ymgymryd ag unrhyw weithgareddau y mae'n ofynnol neu lle mae grym i ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus eu darparu neu ymgysylltu â nhw o fewn, drwy neu o dan unrhyw ddeddfiad neu offeryn cyhoeddus arall;

(b) sefydliadau addysg ac ymchwil, gan gynnwys sefydliadau a sefydlwyd i drosglwyddo canlyniadau ymchwil, ysgolion a phrifysgolion (heblaw llyfrgelloedd prifysgolion);

(c) sefydliadau diwylliannol, ac eithrio llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau.

(4) At ddibenion paragraff (3), mae ystyr "darlledwr gwasanaeth cyhoeddus" yn cyfateb â'r ystyr a roddir yn adran 264(12) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003(d), mae ystyr "is-gwmni" yn cyfateb â'r ystyr a roddir yn adran 1159 o Ddeddf Cwmnïau 2006(a) ac mae ystyr "gwasanaethau rhaglenni" yn cyfateb â'r ystyr a roddir yn adran 405(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

(5) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn berthnasol i unrhyw sefyllfa lle mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar berson i brofi buddiant er mwyn cael mynediad at ddogfennau.

(6) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn berthnasol i rannau o ddogfennau sydd ond yn cynnwys logos, arfbeisiau neu arwyddnodau.

(7) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn berthnasol yn achos—

(a) dogfen lle mae mynediad ati wedi'i eithrio neu ei gyfyngu o dan ddeddfwriaeth mynediad at wybodaeth, gan gynnwys am resymau gwarchod data personol, gwarchod diogelwch gwladol, amddiffyn neu ddiogelwch y cyhoedd, cyfrinachedd ystadegol neu gyfrinachedd masnachol (gan gynnwys cyfrinachau busnes, proffesiynol neu gwmni); neu

(b) unrhyw ran o ddogfen sydd—
(i) yn hygyrch o dan ddeddfwriaeth mynediad at wybodaeth; ac
(ii) yn cynnwys data personol lle byddai ei ailddefnyddio yn anghydnaws â'r gyfraith yn ymwneud â gwarchod unigolion mewn perthynas â phrosesu data personol.

[5] Cais ailddefnyddio

6. Mae'n rhaid i berson sydd eisiau gwneud cais ailddefnyddio sicrhau bod y cais—

(a) yn ysgrifenedig;

(c) yn nodi enw'r ymgeisydd a chyfeiriad ar gyfer gohebiaeth;

(c) yn nodi'r ddogfen y gofynnir amdani; ac

(d) yn nodi at ba ddiben y bydd y ddogfen yn cael eu hailddefnyddio.

## Cwynion

Caiff y datganiad hwn ei adolygu'n rheolaidd. Gallwch gysylltu â ni os oes gennych unrhyw ymholiadau am y datganiad gorchwyl cyhoeddus hwn. Os oes gennych gwyn am Lywodraeth Cymru o dan y Rheoliadau Ailddefnyddio, gallwch ei anfon drwy ein proses gyffredinol ar gyfer ymdrin â chwynion http://llyw.cymru/contact_us/makeacomplaint/complaintspolicy/?lang=cy.

## Canllawiau ar Ailddefnyddio

Mae'r canllawiau ailddefnyddio ar gael yn http://www.nationalarchives.gov.uk/information-management/re-using-public-sector-information/psi-directive-transposition-and-re-use-regulations/